

# Taclo anfantais trwy ofal plant yng Nghymru

SEFYDLIAD  
**bevan**  
FOUNDATION

Ionawr 2024



JOSEPH ROWNTREE  
FOUNDATION



## Gwybodaeth am Sefydliad Bevan

Sefydliad Bevan ydy melin drafod fwyaf dylanwadol Cymru. Rydyn ni'n creu mewnwelediadau, syniadau ac effaith sy'n cynorthwyo i ddod â thlodi, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder i ben. Rydyn ni'n annibynnol, yn wybodus, yn ysbrydoli a chynhwysol ym mhopeth a wnawn.

A ninnau'n elusen gofrestredig, mae Sefydliad Bevan yn dibynnu ar haelioni unigolion a sefydliadau i wneud ein gwaith.

## Gwybodaeth am Sefydliad Joseph Rowntree

Yn Sefydliad Joseph Rowntree, rydyn ni'n gweithio i gyflymu a chynorthwyo'r pontio i ddyfodol sy'n rhydd o dlodi lle gall pobl a'r blaned ffynnu.



# JOSEPH ROWNTREE FOUNDATION

## Diolchiadau

Mae'r adroddiad yn rhan o raglen ehangach o waith Sefydliad Bevan i ddatrys tlodi, a ariennir gan Sefydliad Joseph Rowntree.

Llun Clawr: Delwedd Stoc gan Shutterstock

Hawlfraint Sefydliad Bevan

Sefydliad Bevan, 145a Stryd Fawr, Merthyr Tudful CF47 8DP

[info@bevanfoundation.org](mailto:info@bevanfoundation.org)

[www.bevanfoundation.org](http://www.bevanfoundation.org)

Rhif Cofrestredig yr elusen. 1104191

Rhif cofrestredig y cwmni yng Nghymru. 4175018

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol .....	1
Gweithio tuag at ddatrysiadau .....	2
1.    Cyflwyniad .....	4
2.    Pa gymorth y mae rhieni'n ei dderbyn o ran gofal plant? .....	5
3.    Pum egwyddor allweddol system gofal plant sy'n mynd i'r afael â thlodi .....	7
3.1 Fforddiadwy .....	7
Faint mae gofal plant yn ei gostio yng Nghymru? .....	7
Pa effaith mae costau gofal plant yn ei gael ar anfantais a thlodi? .....	9
3.2 Ansawdd .....	10
Y gweithlu .....	10
Lleoliadau .....	11
Rheoliadau a chyllid .....	
3.3 Cyrchu .....	12
Argaeledd gofal priodol ar gyfer plant .....	13
System ddigyswllt .....	14
3.4 Ffocws ar y teulu .....	15
3.5 Integredig .....	16
4.    Darpar sialensiau .....	18
5.    Casgliad a datrysiadau .....	20
4.1 Gwledigaeth hirdymor ar gyfer plant yng Nghymru .....	20
4.2 Newidiadau byr dymor i dymor canolig .....	21
Cyfeirnodau .....	23

## Crynodeb Gweithredol

Bu dod o hyd i ofal plant fforddiadwy, o ansawdd da, yn sialens i deuluoedd ar draws Cymru ers blynyddoedd. Dros y blynyddoedd diwethaf, gwnaed ymdrech sylweddol i fynd i'r afael â rhai o'r sialensiau hyn. Er gwaethaf hyn, dangosodd data a barn newydd a gasglwyd gan YouGov ar ran Sefydliad Bevan fis Ionawr nad yw 70 y cant o rieni Cymru y mae eu plentyn ifancaf yn 10 oed neu iau yn credu bod cost gofal plant yn fforddiadwy.<sup>1</sup>

Rhagwelir y bydd eleni yn flwyddyn arwyddocaol ar gyfer y system gofal plant. A Llywodraeth Cymru yn addo gweithredu ei Strategaeth Tlodi Plant i "weithio ar draws llywodraeth i ddod o hyd i ddatrysiadau fforddiadwy ar gyfer gofal plant",<sup>2</sup> a gyda gofal plant rhan amser cyffredinol ar gael yn llawn ar gyfer plant dwy flwydd oed erbyn Ebrill 2025, bydd rhieni ar draws y wlad yn disgwyl gweld cynnydd yn argaeledd y ddarpariaeth ariannol. Mae pryderon yn dal i fodoli na fydd y system, er gwaethaf y diwygiad hwn, yn gwireddu ei photensial yn enwedig o ran gostwng tlodi ac anghydraddoldeb.

Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Sefydliad Joseph Rowntree a 'Coram Family and Childcare' adroddiad blaengar *Tackling disadvantage through childcare*.<sup>3</sup> Nododd yr adroddiad bum egwyddor a ddylai fod wrth wraidd system gofal plant os yw am fynd i'r afael ag anfantais. Mae camau y gellir eu gweithredu yng Nghymru o ran pob un o'r egwyddorion hyn er mwyn sicrhau bod gennym system gofal plant sydd wir yn mynd i'r afael ag anfantais.

- **Fforddiadwy:** Rhaid i ofal plant fod yn fforddiadwy er mwyn galluogi rhieni i weithio. Ar hyn o bryd, dydy hyn ddim yn wir yn achos gormod o rieni yng Nghymru. Rhaid i fenyw â phlentyn 2 oed a iau sy'n gweithio llawn amser ar enillion canradd 25 , ar hyn o bryd wario hanner ei henillion wythnosol ar gost gofal plant. Mae rhaglenni Llywodraeth Cymru ar Ddysgu Sylfaenol, Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg (Gofal Plant) yn cynnig cymorth gwerthfawr i rieni gyda chostau eu gofal plant. Ond mae bylchau sylweddol yn parhau o ran argaeledd cyllid ar gyfer gofal plant ar gyfer y plentyn ifancaf. Mae hyn yn cadw rhieni rhag gweithio ac amddifadu plant o'r cyfleoedd y mae gofal plant uchel ei ansawdd ar gyfer eu datblygiad.
- **Ansawdd:** Rhaid i'r ddarpariaeth fod yn uchel ei ansawdd er mwyn gwella canlyniadau. Er y cytunir bod ansawdd cyffredinol gofal plant wedi gwella yng Nghymru, mae eto le i wella. **Dydy un rhiant o bob pump y mae eu plentyn ifancaf yn 10 oed neu'n iau ddim yn credu bod ansawdd eu gofal plant yn dda.** Mae pryderon ynglŷn â diffyg arian yn golygu bod darparwyr yn cael trafferth i recriwtio a chadw staff cymwys iawn, a hynny'n tanseilio ymdrechion i wella ansawdd ymhellach.
- **Cyrchu:** Mae angen i blant difreintiedig allu cyrchu addysg gynnar a gofal plant. Mae hon yn broblem sylweddol yng Nghymru. **Mae diffyg argaeledd gofal plant a diffyg cydlyniant y tair rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod llawer o blant yn colli allan.** Mae risg uwch bod llawer o'r plant mwyaf difreintiedig yn methu a chyrchu gofal plant o gofio'r anawsterau a wynebai rhieni oedd yn gweithio oriau annodweddiadol i ddod o hyd i ddarpariaeth a'r ffaith bod y plant oedd yn byw mewn teuluoedd isaf eu hincwm yn cael eu hamddifadu o'r Cynnig Gofal Plant.



- **Ffocws ar y teulu:** Rhaid i ofal plant gynorthwyo amgylchedd dysgu yn y cartref. Er bod dystiolaeth yn awgrymu bod Dechrau'n Deg yn effeithiol ar gyfer datblygu amgylchedd dysgu yn y cartref positif, **mae'r dystiolaeth am ba mor llwyddiannus ydy system gofal plant ehangach Cymru i ddiwallu'r nod hwn yn llai eglur.**
- **Integredig:** Rhaid i ofal plant fod yn un o bileri system gymorth ehangach. O dderbyn nad ydy gwahanol raglenni gofal plant Llywodraeth Cymru wedi cyfuno'n dda gyda'i gilydd, efallai nad yw'n syndod bod consensws cyffredinol **bod sgôp i wella'r modd y cyfunir system gofal plant gyda gwasanaethau eraill.**

Gallai'r system gofal plant yng Nghymru fod o dan fwy o bwysau yn y dyfodol. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi cychwyn ar raglen i newid gofal plant yn Lloegr, gyda newidiadau mwy sylfaenol yn digwydd ar ôl yr Etholiad Cyffredinol ar ddod. Gallai newidiadau fel hyn gael effaith uniongyrchol ar rieni yng Nghymru ac ar y setliad datganoli. Mae'n hanfodol bod gwleidyddion Cymru a rhanddeiliaid yn dechrau ystyried y modd y gallai'r newid effeithio ar Gymru. Yn enwedig, mae angen ystyried y modd y gallai unrhyw bwerau newydd a ddatganolir i Gymru er mwyn galluogi diwygiadau tebyg i rai Lloegr yn unig, effeithio ar y ddarpariaeth yng Nghymru.

### Gweithio tuag at ddatrysiadau

Mae angen i'n system gofal plant fynd i'r afael ag anfantais yn hytrach na'i ymwreiddio. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i system gofal plant Cymru sefydlu cydbwysedd gwell rhwng cynnig addysg gynnar i blant, cynorthwyo rhieni i ddychwelyd i fyd gwaith a sicrhau bod rhieni yn cael dewis am y math o ddarpariaeth sy'n gweithio orau iddyn nhw.

Mae datblygu polisi gofal plant mwy integredig a chrwn yn hanfodol ar gyfer sicrhau cydbwysedd priodol. Yn y tymor canolig i'r hirdymor, rydyn ni'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynnig gofal plant newydd, radical. Bydda'r cynnig hwn yn golygu y byddai Llywodraeth Cymru yn **darparu ac ariannu gofal plant rhan amser o ansawdd da** (tua 15 awr yr wythnos) **ar gyfer pob plentyn 0-4 oed**, am 48 wythnos y flwyddyn. Byddai'r cynnig hwn ar gael i'r holl rieni **waeth beth fo'u statws gwaith**, gydag **oriau ychwanegol ar gael ar raddfa ffioedd symudol** ar gyfer rhieni sydd eu heisiau.

Rydyn ni'n sylweddoli y gallai newid mor radical â hyn gymryd amser ac adnoddau i'w ddatblygu a'i roi ar waith. Newidiadau byrdymor ydy'r rhain y gellid eu gwneud i'r system gofal plant, newidiadau sy'n mynd i'r afael â rhai o'r gwendidau a nodwyd tra'n symud i'r cyfeiriad dymunol.

Ymhlith y newidiadau byr dymor hyn mae'r canlynol:

- Ymestyn Dechrau'n Deg (Gofal Plant) yn gyffredinol ar gyfer bob plentyn 9 mis i 23 mis oed ar ôl cwblhau gweithredu Dechrau'n Deg (Gofal Plant) ar gyfer yr holl blant yn Ebrill 2025.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol Cymru i adolygu argaeledd gofal plant ymhob cymuned yng Nghymru ac i ddatblygu cynllun am system gofal plant wedi'i hintegreiddio'n llwyr sy'n cyfuno'r tair raglen gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru.
- Gwneud hi'n haws i rieni wneud cais am gyllid gofal plant drwy ddatblygu un ffurflen gais ar gyfer ei thair rhaglen gofal plant.

- Sicrhau ei fod hi'n gliriach beth yw gofynion rheoleiddio gwarchodwyr plant. Gallai hyn gynyddu argaeledd gofal plant, yn enwedig ar gyfer rhieni sy'n gweithio oriau nodweddiadol a rhieni'n byw mewn ardaloedd gwledig.
- Comisiynu adolygiad o gyllido gofal plant yng Nghymru gyda ffocws arbennig ar sicrhau y gall darparwyr gofal plant recriwtio a chadw gweithlu cymwys iawn.

## 1. Cyflwyniad

Mae dod o hyd i ofal plant fforddiadwy, uchel ei ansawdd wedi bod yn sialens i deuluoedd ar draws Cymru ers amser. Dros y blynyddoedd diweddar, ymdrechwyd i fynd i'r afael â'r sialensiau hyn, gyda digwyddiadau pellach ar y gorwel. Ond mae pryderon yn parhau nad yw'r system mor effeithiol ag y gallai fod, yn enwedig o ran gostwng tlodi ac anghydraddoldeb.

Mae system gofal plant wedi'i chynllunio'n dda ac yn gweithredu'n dda yn adnodd allweddol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Gall fod o help i deuluoedd ychwanegu at eu hincwm, symud teuluoedd allan o dlodi a gwella canlyniadau ar gyfer teuluoedd difreintiedig. Mae Strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar Dlodi Plant yn cydnabod a sylweddoli hyn drwy addo ynddi i "weithio ar draws llywodraeth i ddod o hyd i ddatrysiadau fforddiadwy i ofal plant".<sup>4</sup>

Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Sefydliad Joseph Rowntree a 'Coram Family and Childcare' adroddiad blaengar *Tackling disadvantage through childcare*.<sup>5</sup> Nododd yr adroddiad bum egwyddor y mae rhaid seilio system gofal plant arnyn nhw os yw am fynd i'r afael ag anfantais.

- **Fforddiadwy:** Rhaid i ofal plant fod yn fforddiadwy er mwyn galluogi rhieni i weithio.
- **Ansawdd:** Rhaid i'r ddarpariaeth fod yn uchel ei ansawdd er mwyn gwella canlyniadau. Dim ond gofal plant o ansawdd uchel sy'n helpu i gulhau'r bwlch rhwng plant difreintiedig a'u cymheiriaid
- **Cyrchu:** Mae angen i blant difreintiedig allu cyrchu addysg gynnar a gofal plant. Mae teuluoedd yn wynebu ystod o rwystrau rhag derbyn addysg gynnar yn cynnwys deall system gymhleth ac argaeledd lleol i ddiwallu eu hangen.
- **Ffocws ar y teulu:** Rhaid i Ofal Plant gynorthwyo amgylchedd dysgu positif yn y cartref. Er bod tystiolaeth gref o bwysigrwydd amgylchedd positif dysgu yn y cartref a rhaglenni sy'n llwyddo i alluogi rhieni i wella eu gallu i gynorthwyo dysgu eu plant.
- **Integredig:** Rhaid i Ofal Plant fod yn un o bileri system gymorth ehangach. Er mwyn cynorthwyo canlyniadau plant yn llwyr, rhaid i weithwyr proffesiynol fod yn rhan o system gymorth ehangach, gan ymuno i nodi a mynd i'r afael ag anghenion ychwanegol yn gynnar.

Canolbwyntiodd adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree a Coram Family and Childcare ar system gofal plant yn Lloegr. Bydd yr adroddiad hwn yn ceisio adeiladu ar eu gwaith. Bydd yn ystyried a ydy'r system gyfredol yng Nghymru yn unol â'r egwyddorion allweddol hyn a pha newidiadau sydd eu hangen i wella'r system yng Nghymru..

Bydd yr adroddiad yn gwneud hyn mewn pedair adran. Bydd y cyntaf yn cynnig trosolwg o ddarpariaeth gyfredol gofal plant yng Nghymru. Bydd yr ail adran yn asesu'r modd y mae'r ddarpariaeth gyfredol yn diwallu pum egwyddor allweddol Sefydliad Joseph Rowntree a Coram Family and Childcare. Bydd y drydedd yn ystyried rhai o'r darpar sialensiau y mae'r system gofal plant yn eu wynebu yng Nghymru tra bydd yr adroddiad yn gorffen gyda chrynodeb o'n canfyddiadau a'n syniadau ar gyfer newid.

## 2. Pa gymorth mae rhieni yn ei dderbyn o ran gofal plant?

Mae gan rieni yng Nghymru hawl i gael cymorth gyda'u chostau gofal plant drwy gyfuniad o raglenni'r DU a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn creu darlun cymhleth gyda gwahanol gymorth ar gael i deuluoedd yn dibynnu ar oed eu plentyn, ble maen nhw'n byw a'u statws gwaith eu hun.

Tabl 1: Y cymorth gofal plant sydd ar gael ar gyfer plant yng Nghymru

	Plentyn o dan 2 oed	Plentyn 2 oed	Plentyn 3 oed	Plentyn 4 oed
Llywodraeth Cymru	Dim	Cyffredinol: dim	Cyffredinol: Dysgu Sylfaen - 10 awr yr wythnos o addysg y blynyddoedd cynnar yn cychwyn yn ystod y tymor ar ôl penblwydd y plentyn yn 3 oed	Cyffredinol: Dysgu Sylfaen - 10 awr yr wythnos o addysg y blynyddoedd cynnar am 39 wythnos yn cychwyn yn ystod y tymor ar ôl penblwydd y plentyn yn 3 oed
		Ardaloedd Difreintiedig: Dechrau'n Deg – ariannu 12.5 awr o ofal plant yr wythnos am 39 wythnos.	Ardaloedd Difreintiedig Dechrau'n Deg - 12.5 awr o ofal plant yr wythnos hyd at diwedd y tymor maent yn troi'n 3.	
		Rhieni sy'n gweithio: dim.	Rhieni sy'n gweithio: y Cynnig Gofal Plant- 20 awr o ofal plant yr wythnos am 48 wythnos ar gyfer rhieni sy'n gweithio neu rieni sydd yn hyfforddi.*	Rhieni sy'n gweithio: y Cynnig Gofal Plant- 20 awr o ofal plant yr wythnos am 48 wythnos ar gyfer rhieni sy'n gweithio neu rieni sydd yn hyfforddi.*
Llywodraeth y DU	Rhieni sy'n gweithio: Gofal plant di dreth – yn talu am 20% o gostau gofal plant hyd at gapio blynyddol o £2,000			
	Yn gweithio ac ar incwm isel: Credyd Cynhwysol – yn talu am 85% o'r costau			

\* Gellir ei gyfuno â darpariaeth gynhwysol. Yn cynyddu i 30 awr am 9 wythnos pan na fyddai darpariaeth gynhwysol ar gael.

Bydd yr hinsawdd cymorth yn newid dros y 18 mis nesaf. Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o weithredu mynediad cyffredinol i 12.5 awr ofal plant wedi'i ariannu ar gyfer holl blant dwy oed.<sup>6</sup> Disgwylir y bydd y polisi yn weithredol erbyn Ebrill 2025.<sup>7</sup> Dechrau'n Deg ydy'r mecanwaith a ddefnyddir i gyflawni hyn – sy'n golygu y bydd cymorth ar gael i'r holl rieni nid yn unig i rieni sy'n gweithio.

Gallai hyn fod yn achosi peth dryswch. Cyn 2023, dim ond ar gyfer teuluoedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru roedd Dechrau'n Deg ar gael. Roedd yn cyfuno gofal plant rhan amser a ariennir gyda darpariaeth o gymorth ehangach, megis nifer uwch o ymweliadau gan Ymwelwyr Iechyd a rhaglenni i gynorthwyo rhieni gyda'u sgiliau magu plant. Dim ond yr elfen gofal pant sy'n cael ei rhoi ar waith ar draws Cymru gyfan. Er



mwyn gwahaniaethu rhwng dwy elfen y polisi, gelwir y cynnig gofal plant cyffredinol ar gyfer plant dwy oed fel Dechrau'n Deg (Gofal Plant) drwy weddill yr adroddiad hwn gyda phob cyfeiriad at Dechrau'n Deg yn cyfeirio at y cynllun gwreiddiol oedd yn seiliedig ar ardal.

### 3. Pum egwyddor allweddol system gofal plant sy'n mynd i'r afael ag anfantais

Mae adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree a 'Coram Family and Childcare' yn cynnig sail tystiolaeth clir am y rheswm pam mai'r pum egwyddor a amlinellir yn yr adroddiad ydy'r rhai allweddol o ran datblygu system gofal plant sy'n mynd i'r afael ag anfantais. Nod yr adran hon ydy ystyried i ba raddau y mae system Cymru yn mynd i'r afael ag anfantais.

#### 3.1 Fforddiadwy

Faint mae gofal plant yn ei gostio yng Nghymru?

Fel y nodir yn adran 2, darperir cymorth gyda chostau gofal plant ar gyfer teuluoedd yng Nghymru drwy amrywiaeth o wahanol raglenni. Mae argaeledd cymorth yn amrywio, yn dibynnu ar oed y plentyn, ble mae'r plentyn yn byw a statws cyflogaeth ac incwm y rhieni.

O dderbyn bod diffyg gofal plant sydd wedi'i ariannu'n gyffredinol ar gyfer plant dwy oed ac iau, does dim syndod bod gofal plant yn arbennig o ddud i blant yn y grŵp oed hwn. Mae'r ffaith bod cost darparu gofal plant i blant dwy oed yn aml yn uwch yn ychwanegu at hyn, oherwydd bod y gymhareb o staff i blant yn fwy llym. Er enghraifft, rhaid i ddarparwyr gofal dydd sicrhau bod un aelod o staff ar gyfer pob tri phlentyn dwy oed ac iau, un aelod staff i bob pedwar plentyn ddwy oed, ond dim ond un aelod o staff ar gyfer pob wyth plentyn oed 3 i 7.<sup>8</sup> Mae 'Coram Family and Childcare' yn amcangyfrif mai cyfartaledd cost wythnosol i blentyn o dan ddwy oed fynychu meithrinfa llawn amser rhwng Tachwedd 2022 a Chwefror 2023 yng Nghymru oedd £250.95 yr wythnos,<sup>9</sup> sy'n golygu £13,049 y flwyddyn.

Hyd yn oed ar gyfer plant 3 a 4 oed, lle mae mwy o gymorth ariannol ar gael, gall costau gofal plant fod yn sylweddol hefyd. Ar gyfartaledd, mae'n costio £98.79 yr wythnos ar gyfer plentyn 3 oed i fynychu meithrinfa am 50 awr yr wythnos, hyd yn oed os ariennir 30 awr o'r 50 awr drwy Ddysgu Sylfaenol a'r Cynnig Gofal Plant, £5,137 y flwyddyn.<sup>10</sup>

Tabl 2: Costau gofal plant ar gyfer plant yng Nghymru fesul math o ddarparwr a'r nifer o oriau a gyrchwyd

Oed	Meithrinfa 25 awr yr wythnos	Meithrinfa 50 awr yr wythnos	Gwarchodwr Plant 25 awr yr wythnos	Gwarchodwr Plant 50 awr yr wythnos
O dan 2	£135.67	£250.95	£121.63	£239.15
2	£134.92	£249.94	£121.15	£237.78
3 a 4	£51.31*	£98.79**	£48.50*	£95.10 **

\* Amcangyfrif ar sail plentyn yn cyrchu 10 awr o ofal plant ariennir drwy Ddysgu Sylfaen ond nid yr 20 awr o Gynnig Gofal Plant

\*\* Amcangyfrif ar sail plentyn yn cyrchu 30 awr o ofal plant ariennir drwy Ddysgu Sylfaen a'r Cynnig Gofal Plant

Ffynhonnell: Coram Family and Childcare, *Childcare Survey 2023* (Mawrth 2023) ar gael ar - [https://www.familyandchildcaretrust.org/sites/default/files/Resource%20Library/Childcare%20Survey%202023\\_Coram%20Family%20and%20Childcare.pdf](https://www.familyandchildcaretrust.org/sites/default/files/Resource%20Library/Childcare%20Survey%202023_Coram%20Family%20and%20Childcare.pdf)

I roi'r data yn ei gyd-destun, mae'n bosibl cymharu data ar gostau gofal plant gyda data ar enillion. Byddai rhaid i fenyw yn gweithio llawn amser ac yn ennill ar y 25fed canradd o

gyflogau yn 2023 fod wedi gwario dros hanner ei henillion wythnosol ar gostau gofal plant os yw'n anfon ei phlentyn i feithrinfa (53%) neu warchodwr plant (51%) llawn amser.<sup>11</sup>

Tabl 3: Costau gofal plant llawn amser fel canran o enillion wythnosol gros fesul darparwr gofal plant a chanradd incwm.

	Cyflog wythnosol gros	Cost meithrinfa llawn amser ar gyfer plentyn 2 oed neu iau fel % o'r cyflog wythnosol gros	Cost gwarchodwr plant llawn amser ar gyfer 2 oed neu iau fel % o'r cyflog wythnosol gros
Gweithiwr llawn amser canolrifol	£636.10	39	37
Gweithwraig llawn amser canolrifol	£595.10	42	40
Gweithiwr llawn amser ar y 25fed canradd o gyflogau	£496.60	50	48
Gweithwraig llawn amser ar y 25fed canradd o gyflogau	£469.50	53	51

Ffynhonnell: dadansoddiad Sefydliad Bevan o arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol; *Annual survey of hours and earnings - resident analysis*, a gyrchwyd drwy Nomis.

Mae'r sialens y mae gweithwyr rhan amser yn ei hwynebu hyd yn oed yn fwy. Byddai rhaid i weithiwr rhan amser sy'n ennill ar y 25fed canradd o gyflogau wario 91% o'i enillion ar gost meithrinfa, er efallai mai rhan amser fyddai'r plentyn yn mynychu.<sup>12</sup>

Tabl 4: Costau gofal plant rhan amser fel canran o enillion wythnosol gros fesul darparwr gofal plant a chanradd yr incwm

	Cyflog wythnosol gros	Cost meithrinfa rhan amser ar gyfer plentyn 2 oed a iau fel % o gyflog wythnosol gros	Cost gwarchodwr rhan amser ar gyfer plentyn 2 oed a iau fel % o gyflog wythnosol gros
Gweithiwr rhan amser canolrifol	£240.30	56	51
Gweithiwr llawn amser ar y 25fed canradd o gyflogau	£149	91	81

Ffynhonnell: dadansoddiad Sefydliad Bevan o arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol; *Annual survey of hours and earnings - resident analysis*, a gyrchwyd drwy Nomis

Yn aml, mae teuluoedd yn wynebu costau ychwanegol ar ben y ffioedd hyn. Mae nifer o ddarparwyr yng Nghymru yn codi tâl ychwanegol am ddarparu prydau bwyd, gwasanaethau casglu a gollwng plant ac am weithgareddau oddi ar y safle. Gellir codi'r taliadau hyn ar rieni, hyd yn oed os ydy eu gofal plant yn cael ei ariannu drwy'r Cynnig Gofal Plant.<sup>13</sup> Er enghraifft, caiff darparwyr godi hyd at £9 am brydau bwyd fesul diwrnod llawn y mae'r plentyn yn derbyn gofal plant.<sup>14</sup> Dyna £45 ychwanegol yr wythnos ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal plant 5 diwrnod yr wythnos, dros £2,300 y flwyddyn. Rhwng Medi 2021 ac Awst 2022, roedd 44% o ddarparwyr y Cynnig Gofal Plant yn codi ffioedd ychwanegol, bron yn ddwbl y ffigurau ddwy flynedd ynghynt.<sup>15</sup>

## Pa effaith mae costau gofal plant yn eu cael ar anfantais a thlodi?

Bydd fforddiadwyedd gofal plant yn golygu pethau gwahanol i wahanol bobl. Yr ystyr mwyaf sylfaenol ydy, yn ariannol, bod rhaid i rieni ennill mwy nag y maen nhw'n ei wario ar ofal plant ac felly, bod yn well eu byd yn ariannol o ganlyniad i weithio, yn cynnwys ar ôl talu unrhyw gostau gweithio eraill, megis teithio. Ond y lleiafswm ydy hyn ac mewn gwirionedd dylen ni ddisgwyl teuluoedd deimlo eu bod yn amlwg yn well eu byd yn ariannol o ganlyniad i weithio.

Mae mwyafrif helaeth o rieni Cymru yn credu nad yw gofal plant yn fforddiadwy. Cafodd data newydd a gasglwyd gan YouGov ar ran Sefydliad Bevan, yn Ionawr 2024, fod 70% o rieni y mae eu plentyn ifancaf yn 10 oed neu iau yn meddwl nad yw costau gofal plant yn fforddiadwy o'i gymharu ag 11% oedd yn meddwl bod y costau hyn yn fforddiadwy.<sup>16</sup> Canfu arolwg o rieni a gwarcheidwaid Cymru a gynhaliwyd gan Oxfam Cymru yn 2023 fod 92% yn teimlo bod costau gofal plant yn rhy uchel cymesur â'u hincwm.<sup>17</sup> Yr hyn sydd, efallai, sy'n peri mwy o bryder, oedd bod 70% yn nodi nad oedd ganddyn nhw incwm dros ben ar ôl neilltuo arian ar gyfer gofal plant.<sup>18</sup> Mae'r materion hyn yn arbennig o ddifrifol i rieni isel eu hincwm.<sup>19</sup>

Mae effaith gofal plant "anfforddiadwy" yn sylweddol. Ar un llaw, gall gofal plant "anfforddiadwy" olygu bod plant na all eu rhieni fforddio gofal plant neu ofal o ansawdd da yn methu â derbyn manteision yr addysg a'r datblygiad y mae'r gofal hwnnw yn ei gynnig. Ar y llaw arall, gall olygu bod rhieni (matau yn bennaf) yn rhoi'r gorau i'w gwaith neu weithio llai o oriau, a hynny'n golygu bod incwm eu teulu yn gostwng a risg o fyw mewn tlodi yn y byrdymor a'r hirdymor.<sup>20</sup> Mae'r effeithiau hyn yn arbennig o amlwg ymhlith teuluoedd gyda phlant 2 oed a iau lle mae costau gofal plant ar eu huchaf oherwydd diffyg cymorth cyffredinol.

Yn 2022, canfu *Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol* y Senedd fod rhieni angen cymorth ar ddiwedd cyfnod mamolaeth neu dadolaeth.<sup>21</sup> Mae methu â darparu hyn yn golygu bod llawer o rieni eisoes wedi ymadael â'r gweithlu neu'n gweithio oriau llai erbyn bod eu plentyn yn troi'n 3 oed pan fyddan nhw'n gymwys i dderbyn cymorth. Mae data Llywodraeth Cymru ei hun ar y rhai sy'n derbyn eu Cynnig Gofal Plant yn cefnogi barn y pwyllgor. Yn 21/22, dim ond 13% o rieni a gyrchai'r Cynnig Gofal Plant oedd ddim eisoes yn derbyn gofal plant ffurfiol cyn i'w plentyn fod yn 3 oed, a hynny'n awgrymu nad yw'r polisi yn arbennig o effeithiol i gynorthwyo rhieni i ddychwelyd i'r gwaith ar yr adeg pan fydd gofal plant wedi'i ariannu ar gael.<sup>22</sup> Ond mae'r polisi efallai yn fwy llwyddiannus wrth ddenu mamau nôl i'r gweithlu ar ddiwedd absenoldeb mamolaeth o gofio eu bod yn gwybod y bydd gofal plant wedi'i ariannu ar gael iddyn nhw o fewn dwy flynedd.

Bydd gweithredu Dechrau'n Deg (Gofal Plant) ar gyfer pob plentyn 2 oed yn mynd i'r afael â rhai o'r sialensiau hyn, yn enwedig o ran cyrchu manteision addysgol gofal plant. Er bydd hyn yn cau'r bwlch cyfle yn rhannol, bydd plant un oed o deuluoedd isel eu hincwm yn parhau i fod mewn perygl o golli manteision addysgu gofal plant oherwydd y gost.

Gallai effaith Dechrau'n Deg (Gofal Plant) ar gyflogaeth rhieni fod yn llai eglur. Dim ond 12.5 awr yr wythnos o ofal pant wedi'i ariannu mae rhieni'n gymwys i'w dderbyn drwy Dechrau'n Deg (Gofal Plant). Dangosodd ymchwil gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (IFS) mai dim ond ymylol ydy effaith darparu gofal plant rhan amser a ariennir ar gyfranogiad mamau yn y gweithlu, y mamau hynny y mae eu plentyn ifancaf yn gymwys.<sup>23</sup> Mewn cyferbyniad, gall effeithiau darparu gofal plant llawn amser a ariennir fod yn fwy sylweddol.<sup>24</sup> Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn amcangyfrif bod gweithredu 30 awr

yr wythnos o ofal plant a ariennir yn Lloegr yn golygu bydd 60,000 o rieni ychwanegol mewn cyflogaeth erbyn 2027/28.<sup>25</sup>

Mae tystiolaeth gymysg ar effeithiolrwydd gofal plant rhan amser a ariennir ar gyflogaeth menywod ynghyd â'r bwloch parhaus yn y ddarpariaeth rhwng diwedd cyfnod Statudol Mamolaeth a phlentyn yn troi'n ddwy oed yn golygu bod y system gofal plant yng Nghymru yn methu â mynd i'r afael â thlodi ac anhydraddoldeb, hyd yn oed ar ôl i'r darpar ddiwygiadau gael eu rhoi ar waith. Nid argaeledd gofal plant a ariennir ydy'r unig ffactor ar ofal plant fforddiadwy. Mae'r modd yr ariennir gofal plant ei hun yn effeithio anfforddiadwyedd yn fwy cyffredinol. Cafodd Sefydliad Joseph Rowntree a 'Coram Family and Childcare' fod tanariannu gofal plant yn Lloegr wedi arwain at ofal plant drutach ar gyfer rhieni oedd wedi gorfod talu, gyda darparwyr yn symud costau ar blant iau neu'n fwy tebygol o godi ffioedd ychwanegol.<sup>26</sup> Cafwyd tystiolaeth gymysg gan randdeiliaid y gweithion ni gyda nhw fod hyn yn arfer cyffredin yng Nghymru. Roedd pryder dros ardal eang, fodd bynnag, am gyllido ac a oedd ar lefel ddigonol i recriwtio a chadw staff o fewn y sector.

### 3.2 Ansawdd

Gall gofal plant uchel ei ansawdd gael effaith bositif a pharhaol ar ganlyniadau plant, yn enwedig ar gyfer plant dan anfantais.<sup>27</sup> Canfu data newydd a gasglwyd gan YouGov ar ran Sefydliad Bevan ym mis Ionawr 2024 fod nifer fawr o rieni Cymru y mae eu plentyn ifancaf yn 10 oed neu iau yn fodlon gydag ansawdd y gofal plant sydd ar gael yng Nghymru. Nododd cyfanswm o 42% o rieni Cymru eu bod yn meddwl bod ansawdd gofal plant yn dda.<sup>28</sup> Fodd bynnag, doedd canran sylweddol, 20% ddim yn credu bod hyn yn wir.<sup>29</sup>

Mae data sydd gan Lywodraeth Cymru yn cynnig syniad pam bod cymaint o rieni yn credu bod ansawdd gofal plant yn uchel yng Nghymru. Canfu arolwg a gynhaliodd Llywodraeth Cymru o rieni fod 93% yn teimlo bod y Cynnig Gofal Plant wedi cael effaith bositif ar ddatblygiad cymdeithasol eu plentyn, nododd 86% welliant yn sgiliau gwybyddol eu plentyn a gwelodd 78% fanteision iechyd a ffitrwydd ar gyfer eu plant.<sup>30</sup> Yn yr un modd, ceir adolygiadau positif ar gyfer Dechrau'n Deg.<sup>31</sup>

Mae barn yr holl rhanddeiliaid sy'n gweithio yn y sector gofal plant yn fwy unfryd bositif ar ansawdd gofal plant yng Nghymru na rhieni Cymru. Drwy ein hymchwil, rydyn ni wedi ymgysylltu â darparwyr, cyrff cynrychioliadol, staff awdurdod lleol a swyddogion cyhoeddus eraill. Cytunodd pawb y cafwyd gwelliannau yn ansawdd gofal plant yng Nghymru.

Er enghraifft, os edrychwn ar ansawdd, baswn i'n dweud ein bod wedi gweld cynnydd anferth yn yr ansawdd dros y degawdau diwethaf.<sup>32</sup>

Profiad a chymwysterau staff oedd prif reswm rhanddeiliaid dros gredu bod ansawdd gofal plant Cymru yn uchel.

### Y gweithlu

Argaeledd staff cymwys, uchel eu hansawdd, ydy sylfaen system gofal plant uchel ei hansawdd. Mae hyn yn ymestyn i brofiad y gweithlu a chymwysterau'r staff.<sup>33</sup>

Mae lleoliadau gofal plant yn amodol ar leiafswm safonau y mae rhaid cydymffurfio â nhw o ran cymwysterau staff. Er enghraifft, ar gyfer darparwyr gofal dydd llawn, rhaid bod gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am y lleoliad gymhwyster lefel 3 o leiaf, gyda gofyn bod o leiaf



30% pellach yn meddu ar gymhwyster lefel 2 o leiaf a gofyn i o leiaf 20% pellach fod yn gweithio tuag at gymhwyster lefel 2 neu 3.<sup>34</sup>

Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith rhanddeiliaid fod cyflwyno lleiafswm safonau fel hyn wedi gwella ansawdd y gofal plant a gynigir yng Nghymru. Fodd bynnag, ceir pryderon amlwg bod gallu darparwyr i recriwtio a chadw staff fel hyn yn her. A derbyn bod cyflogau o fewn y diwydiant yn isel, mae darparwyr yn aml yn colli aelodau staff sy'n symud i swyddi sy'n talu'n well, yn enwedig y sector addysg neu swyddi gyda llai o gyfrifoldeb megis y rhai yn y sector manwerthu. Mae hyn nid yn unig yn effeithio ar eu gallu i lenwi swyddi gwag ond hefyd yn golygu bod profiad gwerthfawr yn cael ei golli o'r sector, a hynny'n tansilio ansawdd.

Teimlwyd bod gallu'r sector gofal plant i gynyddu cyflog staff er mwyn gwella'r cyfradd cadw yn gyfyng o dan y modelau cyllido cyfredol. Heb unrhyw gynnydd yn y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, byddai darparwyr yn trosglwyddo'r costau i rieni. Byddai hyn, yn ei dro, yn gwneud i ofal plant fod yn fwy anfforddiadwy, ac o bosibl yn golygu llai o blant yn defnyddio gofal plant. Byddai hyn nid yn unig yn cael effaith andwyol ar blant a fyddai'n colli allan, ond hefyd â goblygiadau cost ar gyfer darparwyr, gan roi pwysau arnyh nhw i gynyddu'r prisiau er mwyn eu digolledu am y referniw a gollwyd.

## Lleoliadau

Ceir tystiolaeth bod ansawdd gofal plant yn amrywio o leoliad i leoliad gyda lleoliadau a gynhelir yn uwch eu safon.<sup>35</sup> Mae hyn yn bennaf oherwydd bod rhagor o gyllid ar gael ar gyfer lleoliad a gynhelir, a hynny'n ei gwneud hi'n haws i recriwtio a chadw staff. Mae'n anodd cymharu'r data ar gael ar faint cymharol y sectorau a gynhelir a'r sector nas cynhelir yng Nghymru ond mae'n dangos bod y sector a gynhelir yn ddarparwr sylweddol o ofal plant a dysgu blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 neu 4 oed.

Mynychodd cyfanswm o 32,496 o blant feithrinfa mewn lleoliad a gynhelir yng Nghymru yn 2022/23.<sup>36</sup> O'r rhain, mynychodd 27,140 Feithrinfa 2, darpariaeth sydd ar gael ar gyfer plant 3 a 4 oed.<sup>37</sup> Er mwyn rhoi syniad o arwyddocâd y nifer hwn, mae'n bosibl cymharu nifer y plant a fynychodd Meithrinfa 2 gyda nifer o blant yn mynychu Derbyn yn ystod y flwyddyn academaidd ganlynol. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, aeth 88% o blant a fynychodd Meithrinfa 2 ymlaen i'r dosbarth Derbyn y flwyddyn ganlynol.<sup>38</sup> Mae hyn yn golygu bod y mwyafrif helaeth o blant 3 a 4 oed ar draws Cymru yn cyrchu o leiaf peth gofal plant a dysgu blynyddoedd cynnar mewn lleoliad a gynhelir.

Mae'n debygol bod nifer o resymau pam bod sector meithrin a gynhelir yng Nghymru mor fawr ei faint, gyda ffactorau hanesyddol, diwylliannol a gwleidyddol yn cael effaith arno. Ond dylid cofio, fodd bynnag, nad yw'r sector a gynhelir ddim yn gweithio ar ei ben ei hun. Cynigir llawer o'r gofal plant hwn yn ddarpariaeth ran amser. Mae hyn yn rhannol oherwydd y dystiolaeth brin bod presenoldeb llawn amser yn gwella cyrhaeddiad academaidd yn fwy na phresenoldeb rhan amser.<sup>39</sup> Felly, mae llawer o blant yn cyrchu gofal plant mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir, gyda phlant yn mynychu lleoliad a gynhelir am ran o'r dydd a lleoliad preifat am ran arall o'r dydd. Ar gyfer plant iau, y sector nas cynhelir ydy prif ddarparwr gofal plant a dysgu cynnar. Dim ond 5,245 o blant 2 oed neu iau gyrchodd ofal plant mewn lleoliad a gynhelir yn 2022/23.<sup>40</sup>

## Rheoliadau a chyllido

Ffactorau allweddol eraill sy'n effeithio ar ansawdd gofal plant ydy rheoliadau a chyllido. Mae gwahaniaethau rhwng y gofynion rheoliadol ar ddarparwyr a'r cyllid sydd ar gael, yn dibynnu pa un, os oes un, o raglenni Llywodraeth Cymru y maen nhw'n ei gynnig.

Rhaid cofrestru holl wasanaethau chwarae a gofal plant yng Nghymru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.<sup>41</sup> Gall darparwyr cofrestredig ddarparu'r Cynnig Gofal Plant cyhyd ag y byddan nhw wedi cofrestru gyda'u hawdurdod cyflenwi perthnasol.<sup>42</sup> Er mwyn cyflenwi Dechrau'n Deg (Gofal Plant) neu Addysg Sylfaen, rhaid i ddarparwyr gofal pant hefyd fod wedi'u cofrestru gydag Estyn, y rheolydd addysg.<sup>43</sup>

Cododd rhanddeiliaid rai pryderon a oes hierarchaeth ansawdd yn rhaglenni Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru dudalen o eglurhad i rieni wrth ymestyn Dechrau'n Deg (Gofal Plant) ar gyfer holl blant 2 oed. Un o'r problemau a nodir ar y dudalen ydy'r rheswm pam bod Llywodraeth Cymru yn ymestyn ei rhaglen Dechrau'n Deg (Gofal Plant) yn hytrach nag ehangu ei Chynnig Gofal Plant.<sup>44</sup> Isod, ceir rheswm Llywodraeth Cymru dros wneud hyn:

Gan mai un o amcanion trosfwaol y rhaglen ehangu addysg blynyddoedd cynnar ydy mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd, mae Dechrau'n Deg yn gyfrwng mwy addas i'w ddarparu. Mae ymchwil yn dangos bod gofal plant uchel ei ansawdd yn creu manteision tymor hirach ar gyfer ein plant ac yn dylanwadu'n gryf ar eu cyfleoedd yn y dyfodol. Gall y gofal plant priodol fod o help i fynd i'r afael â rhai o'r problemau mwy hirsefydlog o ganlyniad i fyw'n ddifreintiedig, gan gynnwys sgiliau isel a iechyd gwael a fydd yn cymryd amser i'w goresgyn<sup>45</sup>

Mae hyn yn codi'r cwestiwn a ydy Llywodraeth Cymru yn credu bod Dechrau'n Deg (Gofal Plant) yn cynnig gofal plant gwell ei ansawdd na'r gofal a ddarperir drwy'r Cynnig Gofal Plant. Mae'r cwestiwn hwn yn arbennig o berthnasol o gofio mai dyma'r unig elfen gofal plant o Dechrau'n Deg sy'n cael ei weithredu yn gyffredinol, yn hytrach na'r rhaglen ehangach.

Mae ffactorau rheoliadol a chyllidol a allai egluro sefyllfa Llywodraeth Cymru. Yn gyntaf rhaid bod darparwr gofal plant yn gofrestredig gydag Estyn i ddarparu Dechrau'n Deg (Gofal Plant) ond does dim rhaid bod yn gofrestredig ar gyfer darparu Cynnig Gofal Plant. Mae hyn yn golygu bod gan ddarparwyr Dechrau'n Deg (Gofal Plant) fwy o ofynion rheoliadol i'w diwallu a allai wella ansawdd. Yn ail, defnyddir model cyllido gwahanol ar gyfer Dechrau'n Deg (Gofal Plant) a'r Cynnig Gofal Plant. Dywedodd un darparwr gofal plant wrthon ni ei fod yn teimlo bod "haen o aur" dros y cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg (Gofal Plant) hyd yn oed ar ôl ystyried a rhagweld costau uwch o ran cymarebau staff i blant".<sup>46</sup> Roedd y darparwyr eu hunain yn llai sicr a oedd unrhyw wir wahaniaeth yn ansawdd y gofal plant a gynigwyd drwy'r ddwy raglen, gan holi a ellid cyfiawnhau gwahaniaeth cyllidol a rheoliadol fel hyn.

### 3.3 Cyrchu

Bydd plant yn elwa o addysg gynnar a gofal plant dim ond os gallan nhw ei fynychu a chael eu hysgogi i'w fynychu.<sup>47</sup> Y rhwystr amlycaf rhag chyrchu gofal plant yng Nghymru ar hyn o bryd ydy bod llawer o blant sy'n byw mewn teuluoedd isel eu hincwm yn colli allan ar ofal plant a gyllidir. Dydy plentyn nad yw ei rieni ddim yn gweithio am 16 awr yr wythnos (y ddau riant mewn teulu dau riant) neu sydd ddim mewn hyfforddiant, ddim yn

gymwys i dderbyn gofal plant a gyllidir drwy'r Cynnig Gofal Plant.<sup>48</sup> Fodd bynnag, mae hyd yn oed rhieni a all fforddio costau gofal plant neu sy'n gymwys ar gyfer gofal plant a gyllidir yn wynebu sialensiau sylweddol. Er enghraifft, mae data sydd gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu mai dim ond 55% o rieni cymwys all wir gyrchu'r Cynnig Gofal Plant.<sup>49</sup> Mae dau brif reswm dros hyn.

### Argaeledd gofal plant priodol

Mae argaeledd gofal plant yn ffactor allweddol wrth benderfynu a gaiff ei gyrchu gan blant.

Fel y nodwyd yn yr adran uchod, mae mwyafrif helaeth o blant 3 i 4 oed yng Nghymru yn cyrchu o leiaf ychydig o ofal plant a dysgu cynnar mewn lleoliad a gynhelir. O ran plant iau, y sector nas cynhelir ydy'r prif ddarparwr o ofal plant, gyda llawer o blant 3 i 4 oed hefyd yn cyrchu gofal plant mewn lleoliadau nas cynhelir ynghyd â'r gwasanaethau y maen nhw'n eu cyrchu yn y sector a gynhelir.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn darparu data ar y nifer o leoedd ar gael yn y sector nas cynhelir fesul y math o ddarparwr gwahanol.<sup>50</sup> Mae cyfanswm o 63,204 o leoedd ar gyfer gofal plant yng Nghymru drwy'r sector nas cynhelir (heb fod yn cynnwys darpariaeth chwarae agored a gofal tu allan i oriau ysgol), gyda dau draean o'r lleoedd hyn ar gael mewn lleoliadau Gofal Dydd Llawn (40,510).<sup>51</sup>

**Tabl: Nifer o leoedd gofal plant nas cynhelir ar gael, fesul math o ddarparwr, ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31/03/2023**

Math o Ddarparwr P	Nifer o leoedd
Gwarchodwr Plant	12,820
Crèche	474
Gofal Dydd Llawn	40,510
Sesiwn Gofal Dydd	9,400
Cyfanswm	63,204

Ffynhonnell: Arolygiaeth Gofal Cymru Care, *Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygwr 2022–23* (2023) ar gael ar - <https://www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2023-10/261020-CI-Report-22-23-en.pdf>

Er gwaethaf y nifer fawr o leoedd sydd ar gael ar gyfer gofal plant yn y sector a gynhelir, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod digon o ofal plant yn eu hardaloedd,<sup>52</sup> mae pryderon nad ydy'r rhain yn ddigonol i ddiwallu'r angen. Er enghraifft cafodd Arolwg Blynyddol Coram Family and Childcare, yn 2023 mai dim ond 15% o awdurdodau lleol Cymru oedd â chyflenwad digonol o ofal plant i ddiwallu anghenion plant o dan 2 oed ymhob ardal.<sup>53</sup> Mae dod o hyd i ofal plant sy'n diwallu eu hanghenion yn sialens ddwys i rieni rhai plant.

Mae rhieni sy'n gweithio oriau nodweddiadol yn wynebu sialensiau sylweddol wrth geisio cyrchu gofal plant, yn enwedig gofal plant a gyllidir.<sup>54</sup> Dim ond rhwng 8 o'r gloch y bore a 6 o'r gloch y prynhawn yn ystod dyddiau'r wythnos waith y gellir cyrchu mwyafrif helaeth o ofal plant a ariennir. O dderbyn bod rhieni isel eu hincwm yn fwy tebygol o weithio oriau annodweddiadol, mae'n debygol y bydd plant o deuluoedd isel eu hincwm yn wynebu mwy o rwystrau rhag cyrchu gofal plant.<sup>55</sup>

Mae pryderon pellach am allu rhieni i gyrchu gofal plant mewn ardaloedd gwledig. Yn ystod ein hymchwil siaradon ni ag un ddarparwr oedd yn cau gwasanaeth gofal plant yng nghefn gwlad Cymru. Un o'r rhesymau a gynnigwyd oedd bod diffyg plant yn lleol yn golygu nad oedd digon o arian yn dod i mewn i gynnal meithrinfa heb wneud colled

sylweddol yn seiliedig ar fodolau cyllido cyfredol. Amlygodd gwaith diweddar Sefydliad Bevan ar dlodi yn Arfon effaith hyn ar rieni.<sup>56</sup> Yn aml, mae rhaid i rieni deithio pellter sylweddol i gyrchu unrhyw ffurf o ofal plant mewn ardaloedd gwledig. I rieni ar incwm isel, yn enwedig y rhai heb gar, gallai'r pellter y mae rhaid iddyn nhw deithio i gyrchu gofal plant ynddo'i hun fod yn sialens anorchfygol.

Mae Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd wedi nodi grwpiau eraill sy'n cael trafferth i gyrchu gofal plant sy'n diwallu eu hanghenion. Ymhlith y grwpiau o blant a nodwyd gan y Pwyllgor roedd plant anabl a phlant o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig.<sup>57</sup> Er i waith gael ei wneud yn y maes hwn, yn enwedig ar gyfer plant anabl a phlant ag anghenion addysgol arbennig, roedd rhanddeiliaid yn cytuno bod angen cynnal rhagor o waith yn y maes hwn yn enwedig ar gyfer plant anabl a phlant ag anghenion addysgol arbennig.

Nododd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd hefyd fod diffyg gofal plant cyfrwng Cymraeg yn sialens mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru, oherwydd bod y galw yn drech na'r cyflenwad. Roedd rhanddeiliaid yn fwy positif am y cynnydd a wneir wrth ddatblygu gofal plant drwy gyfrwng Cymreg, a yrrir yn rhannol gan y ffocws ar ymestyn Dechrau'n Deg (Gofal Plant) ar gyfer pob plentyn 2 oed, er bod cytundeb bod angen symud pethau ymlaen ymhellach.<sup>58</sup>

## System Ddigyswllt

Yn aml, mae'r modd digyswllt y mae'r system gofal plant yn gweithio yn dwysáu'r problemau sy'n deillio o ddiffyg argaeledd gofal plant priodol. Fel y nodir yn adran 2, mae pum rhaglen wahanol y DU a Llywodraeth Cymru sy'n cynnig cymorth i rieni gyda chostau gofal plant. Mae dilyn trywydd y gwahanol gynlluniau hyn yn gymhleth ac yn arwain at blant yn colli allan ar addysg gynnar a gofal plant. Mae adroddiad Joseph Rowntree a Coram Family and Childcare yn ystyried yn fanwl y sialensiau y mae rhieni yn eu hwynebu wrth gyrchu cynlluniau'r DU gyfan,<sup>59</sup> felly, bydd yr adroddiad hwn yn ffocysu ar y sialensiau y mae rhieni a gwarcheidwaid yn eu hwynebu wrth geisio cyrchu cynlluniau Cymru.

Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo tair rhaglen gofal plant a gyllidir yn creu sialensiau. Nododd Llywodraeth Cymru fod diffyg ymwybyddiaeth o'r cynlluniau sydd ar gael yn rhwystro rhieni rhag cyrchu gofal plant a gyllidir.<sup>60</sup> Gyda thri chynllun ar gael, dydy hi efallai ddim yn syndod nad ydy rhieni yn ymwybodol o'r hyn y mae ganddyn nhw hawl iddo. Mae'r ffaith bod rhaid i rieni sy'n ymwybodol o'r cynlluniau y maen nhw'n gymwys i'w cyrchu, gyflwyno nifer o geisiadau i gyrchu eu hawliau yn gwneud y broblem yn waeth ac yn fwy cymhleth.<sup>61</sup> Y gobaith ydy y gallai cyflwyno gwasanaeth digidol Cynnig Gofal Plant newydd fynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn.<sup>62</sup> Ond, mae'r problemau cyrchu yn llawer dyfnach na hynny.

Y broblem fwyaf sylweddol ydy diffyg integreiddio rhwng y gwahanol raglenni gofal plant. Rydyn ni wedi darganfod nifer o enghreifftiau lle mae diffyg integreiddio rhwng tri chynllun Llywodraeth Cymru yn tansilio'r cyflenwi.

Mae llawer o rieni yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ddarparwr a all gynnig yr holl gynlluniau gwahanol mewn un lleoliad. Yn aml lleolir Dysgu Sylfaen mewn ysgol, ond does gan bob ysgol ddim darparwr gofal plant ar y safle a all gynnig i rieni yr oriau a gyllidir y mae ganddyn nhw hawl iddyn nhw drwy'r Cynnig Gofal Plant. Ar y llaw arall, ceir

nifer o fethrinfeydd sydd yn cynnig gofal plant a gyllidir drwy'r Cynnig Gofal Plant ond ddim yn cynnig Dysgu Sylfaen. Mae dros hanner darparwyr y Cynnig Gofal Plant (56%) yn darparu gofal plant i blant sy'n cyrchu Dysgu Sylfaen mewn man arall.<sup>63</sup> Felly, rhaid i rieni sydd ddim yn gallu cyrchu'r ddwy raglen mewn un lleoliad ac yn methu dod o hyd i ddarparwr sy'n cynnig gwasanaeth casglu a gollwng, naill ai darfu ar eu diwrnod gwaith er mwyn symud eu plentyn o un lleoliad i leoliad arall, neu rhaid iddyn nhw ddewis pa raglen maen nhw'n dymuno ei chyrchu. Mae pryderon mai'r un fyddai'r sialens wrth ymestyn Dechrau'n Deg (Gofal Plant), yn achosi anawsterau arbennig i rieni â phlant o wahanol oed sydd â hawl i wahanol gynlluniau gwahanol.

Teimlai llawer o randdeiliaid fod diffyg integreiddio rhwng gwahanol raglenni gofal plant yn golygu na all rhieni plant anabl yn aml gyrchu gofal plant mewn lleoliad sy'n diwallu anghenion eu plentyn orau. Fel dywedodd un rhanddeiliad wrthon ni:

Dydy ffocws y system ddim ar y plentyn. Y plentyn sy'n dilyn y cyllid nid y cyllid yn dilyn y plentyn.

#### **Y penderfyniadau anodd sydd gan rieni plant anabl**

Cawson ni enghraifft sy'n dangos y sialensiau y mae rhieni plant anabl yn eu hwynebu lle roedd rhiant plentyn wedi ei ddiagnosio ag awtistiaeth. Roedd gwarchodwr plant wedi edrych ar ôl y plentyn ers diwedd cyfnod absenoldeb rhiant o'r gwaith ac wedi setlo'n dda. Roedd rhieni'r plentyn yn hapus iawn gydag ansawdd y gofal roedd eu plentyn yn ei dderbyn ac o weithio mewn partneriaeth gyda'r darparwr, roedden nhw'n gallu gweld bod y plentyn yn gwneud cynnydd. Ond doedd y gwarchodwr plant ddim wedi cofrestru i ddarparu Dysgu Sylfaen, felly, byddai rhaid i rieni'r plentyn ddewis rhwng lleoliad fyddai'n diwallu anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu ddarpariaeth gofal plant a gyllidir.

Mae diffyg integreiddio nid yn unig yn cyfyngu ar allu rhieni rhag cyrchu mwy nag un rhaglen gofal plant, ond hefyd yn effeithio ar argaeledd gofal plant. Efallai byddai ystyried y rheoliad yn cynnig y darlun gorau. Er bod Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn yn arolygu rhai ar y cyd, nododd rhanddeiliaid bryderon bod darparwyr y Cynnig Gofal Plant a naill ai Dechrau'n Deg (Gofal Plant) neu Dysgu Sylfaen yn teimlo eu bod yn rhwym wrth reoliad dwbl. Y baich o gadw at y rheoliad dwbl hwn oedd un o'r rhesymau a roddwyd pam fod darparwyr yn optio allan o gynnydd mwy nag un o raglenni Llywodraeth Cymru, a hynny'n cynyddu'r risg o deuluoedd yn cael trafferth i gael diwallu anghenion gofal plant mewn un lleoliad.

Mae 'na ddryswch arbennig o ran gofynion rheoleiddio gwarchodwyr plant. Fe allai hyn arwain at warchodwyr plant i gasglu yn anghywir nad ydynt yn gallu cynnig rhai o raglenni gofal plant a gyllidir gan Llywodraeth Cymru. Fe fyddai sicrhau gwell dealltwriaeth o'r gofynion rheoleiddio sy'n wynebu'r sector yn gallu arwain at gynnydd yn argaeledd gofal plant mewn ardaloedd gwledig, neu ar benwythnosau, symudiad a fyddai o fudd arbennig i blant gweithwyr isel eu hincwm.

### **3.4 Ffocws ar y Teulu**

Amgylchedd dysgu yn y cartref ydy prif ddylanwad ar y bwlch cyrhaeddiad rhwng plant di-fantais a'u cyfoedion gwell eu byd.<sup>64</sup> Mae adroddiad Joseph Rowntree a 'Coram Family and Childcare' yn darparu tystiolaeth helaeth o rôl ganolog y teulu yn ystod cyfnod



babandod cynnar i benderfynu canlyniadau plentyn.<sup>65</sup> Mae consensws ymhlith rhanddeiliaid bod sgôp i wella er bod cryfderau yn system gofal plant Cymru o ran yr egwyddor hon

Prin ydy gwerthusiadau o effaith gwahanol raglenni gofal plant Llywodraeth Cymru ar deuluoedd ehangach ac ar ddysgu yn y cartref. Mae'r data prin sydd gennym yn dangos bod y gwahanol raglenni yn cael effaith bositif. Cafodd adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Cynnig Gofal Plant, er enghraifft fod 86% o rieni yn nodi effaith bositif y Cynnig Gofal Plant ar eu llesiant.<sup>66</sup> Mae mwy o ddata helaeth ar gael ar gyfer Dechrau'n Deg.

Caiff teuluoedd sy'n byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg ystod o gymorth drwy'r rhaglen sy'n ymestyn tu hwnt i ddarpariaeth gofal plant a gyllidir. Er enghraifft, gall teuluoedd elwa o gyrsiau a luniwyd i helpu rhieni a phlant ddysgu gyda'i gilydd drwy chwarae a gweithgareddau hwyliog neu elwa o nifer uwch o ymweliadau gan Ymwelwyr Iechyd.<sup>67</sup> Mae'r gweithgareddau ychwanegol hyn yn sicr, yn cael effaith bositif iawn ar ddysgu yn y cartref a cheir tystiolaeth o adolygiadau cyson Llywodraeth Cymru fod eu hyder fel rhieni yn cynyddu, eu bod yn deall datblygiad eu plentyn yn well a'u bod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu yn y cartref megis arwyddo<sup>68</sup>. O dderbyn nad yw'r gwasanaethau ychwanegol hyn yn cael eu rhoi ar waith yn genedlaethol fel rhan o ymestyn Dechrau'n Deg (Gofal Plant) ar gyfer pob plentyn 2 oed, mae'n debygol y bydd yr effeithiau positif yn llai amlwg.

### 3.5 Integredig

Bydd gofal plant ar ei fwyaf effeithiol wrth wella cyfleoedd bywyd plant pan fydd yn gweithredu fel rhan ddi-dor o system gymorth ehangach.<sup>69</sup> Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae gwir angen i wella'r modd y caiff gwahanol raglenni gofal plant Cymru eu hintegreiddio gyda'i gilydd. Mae angen hefyd i gyfuno ac integreiddio'r system gofal plant gyda gwasanaethau eraill.

Ceir enghreifftiau o arferion da yng Nghymru wrth integreiddio gofal plant a gwasanaethau ehangach. Er enghraifft, dangosodd data a rannwyd gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, lle mae addysg blynedd cynnar a gofal plant ar gael ar safle ysgol, fod 96% o blant sy'n mynychu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn symud ymlaen i fynychu addysg cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â 90% o blant lle lleolir y gwasanaethau hyn oddi ar y safle.<sup>70</sup> Mae gofal plant a gwasanaethau addysg integredig yn hwyluso'r pontio i mewn i addysg ffurfiol sy'n arbennig o fuddiol i blant o deuluoedd isel eu hincwm.

Dydy dull integredig fel hyn o fynd ati rhwng ysgolion a darparwyr gofal plant ddim yn bodoli bob amser. Teimlai rhai o'r rhanddeiliaid bod y berthynas "nhw a ni" a nodwyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn dal i fodoli.<sup>71</sup> Hefyd, dywedodd rhanddeiliaid wrthon ni nad oedd y berthynas rhwng y sector iechyd wedi'i hadfer ers cyfnod y pandemig gan roi'r sgôp i wella'r cyfathrebu rhwng Ymwelwyr Iechyd a darparwyr fel un enghraifft o hyn.

Er nad yn berffaith, y teimlad oedd, bod yr integreiddio rhwng gwahanol wasanaethau yn gryfach yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Er enghraifft, gyda nifer uwch o ymweliadau gan Ymwelwyr Iechyd yn gydran allweddol o'r rhaglen, teimlwyd bod hyn yn gwella dealltwriaeth rhwng y gwasanaeth iechyd a'r sector gofal plant. Roedd rhanddeiliaid yn amheus a fyddai hyn yn cael ei ailadrodd yn helaethach ar draws Cymru wrth i Dechrau'n

Deg (Gofal Plant) gael ei roi ar waith yn gyffredinol. Ni fydd llawer o'r nodweddion sy'n hybu integreiddio rhwng gwasanaethau yn cael eu hymestyn tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg, o dderbyn mai dim ond yr elfen gofal plant sy'n cael ei hymestyn.

## 4. Darpar sialensiau

Mae'n debygol iawn nad ymestyn Dechrau'n Deg (Gofal Plant) fydd yr ymdrech olaf i wneud newidiadau i ofal plant yng Nghymru. Mae'r bwlch yn argaeledd gofal plant wedi'i gyllido, diffyg integreiddio rhwng gwahanol raglenni gofal plant a'r sialensiau fforddiadwyedd parhaus yn nodweddion o'r system a fydd yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau pellach. Fodd bynnag, nid ffactorau Cymreig yn unig fydd yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau i ofal plant. Mae newid parhaus i ofal plant yn Lloegr yn debygol o gael effaith hefyd.

Mae system gofal plant yn Lloegr yn mynd i gael ei newid yn sylweddol. O fis Ebrill 2024, yn Lloegr, bydd rhieni mewn gwaith plant dwy oed yn gymwys i dderbyn 15 awr yr wythnos o ofal plant a gyllidir.<sup>72</sup> Bydd hyn yn cael ei ymestyn i rieni gweithiol plant 9 i 23 mis oed o fis Medi 2024, ac erbyn mis Medi 2025, yn Lloegr, bydd hawl gan yr holl deuluoedd sydd mewn gwaith i 30 awr o ofal plant a gyllidir ar gyfer plant o dan 5 oed a thros 9 mis.

Mynegwyd pryderon am y diwygiadau hyn. Mae hyn yn amrywio - a fydd gan y sector yn Lloegr y capasiti i'w cyflenwi,<sup>73</sup> a ydy ffocws y diwygiadau yn canolbwyntio'n ormodol ar gael rhieni i gymryd gwaith ar draul ansawdd y ddarpariaeth,<sup>74</sup> ac am eu heffaith ar blant o deuluoedd isel eu hincwm a allai golli allan ar ofal plant a gyllidir os nad ydy eu rhieni mewn gwaith.<sup>75</sup> Er gwaetha hyn, mae'n debygol bydd effaith y diwygiadau hyn yng Nghymru yn ddeublyg.

Yn gyntaf, rydyn ni eisoes wedi gweld rhieni gweithiol yng Nghymru yn gofyn i Lywodraeth Cymru efelychu diwygiadau Lloegr. Arwyddodd dros 10,000 o bobl ddeiseb a gyflwynwyd i bwyllgor deisebau'r Senedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i "*Gynnig yr un cymorth ariannol i rieni gweithiol yng Nghymru â Lloegr*".<sup>76</sup> Mae'n debygol bydd cynnydd mewn galwadau fel hyn wrth i rieni fod yn fwy ymwybodol eu bod yn derbyn gwahanol lefelau o gymorth ariannol o ganlyniad i fyw yng Nghymru o'i gymharu â'r hyn y mae ffrindiau a theulu sy'n byw yn Lloegr yn ei dderbyn.

Yn ail, gallai fod goblygiadau ariannol i'r penderfyniad i ymestyn gofal plant yn Lloegr. Gallai unrhyw gynnydd mewn gwariant ar ofal plant yn Lloegr olygu bod Llywodraeth Cymru yn derbyn mwy o gyllid drwy Fformiwla Barnett, a hynny'n cynyddu ei gallu i fuddsoddi i atgyfnerthu system gofal plant Cymru. Mae'n bwysig cofio y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ei chyllideb yn fanwl. Gallai gosod unrhyw gynnydd yn y cyllid y mae'n ei dderbyn, oherwydd ymestyn gofal plant yn Lloegr, olygu gorfod gwneud toriadau mewn adrannau eraill. Felly does dim gwarant y bydd cynnydd yn y gwariant ar ofal plant yn Lloegr yn arwain at gynnydd yng ngrant bloc Llywodraeth Cymru, yn y tymor canolig.

Hyd yn oed petai cynnydd mewn gwariant ar ofal plant yn Lloegr yn arwain at gynnydd yng ngrant bloc Cymru, does dim gwarant y byddai hyn yn golygu cynnydd yn y gwariant ar ofal plant yng Nghymru. Yn wir, mae Drafft Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 mewn gwirionedd yn torri £11.2m o wariant ar y Cynnig Gofal Plant, newidiadau a ddaw i rym wrth i wariant gynyddu yn Lloegr.<sup>77</sup> Mae sylwadau'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn awgrymu nad rhywbeth untro ydy hyn.<sup>78</sup>

O ystyried y tymor canolig, efallai bod newidiadau mwy sylweddol ar y gorwel. Cafwyd llif o adroddiadau yn Lloegr<sup>79</sup>, sy'n ystyried y modd y gellid datblygu system gofal plant fwy effeithiol. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys argymhellion y byddai'n newid y modd y mae rhaglenni 'Lloegr yn unig' yn gweithredu ond hefyd byddai'n newid y Gofal Plant Di-Dreth ac elfen gofal plant o raglenni'r Credyd Cynhwysol, rhaglenni a fyddai o fudd i deuluoedd Cymru. Yn olaf, cyhoeddodd y Blaid Lafur yn ei chynhadledd flynyddol yn

hydref 2023 y byddai Syr David Bell yn cynnal adolygiad o system fodern ar gyfer gofal plant. Petai Llywodraeth y DU yn rhoi unrhyw un o'r syniadau hyn ar waith, byddai'r effaith ar deuluoedd yng Nghymru yn sylweddol.

Maes arall lle gallai newidiadau fod ar y gorwel ydy amodau budd-daliadau. Pan gyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i ehangu darpariaeth gofal plant yn Lloegr, nododd y byddai newidiadau yn cael eu gwneud i amodau gwaith rhieni. Bydd y newidiadau hyn yn cynyddu disgwyliadau ar rieni ar draws y DU i chwilio am swydd neu beryglu eu budd-daliadau. Os caiff y gofynion amodoldeb hyn eu diwygio ymhellach wrth i ofal plant a ariennir gael ei ehangu yn Lloegr, gallai rhieni o Gymru wynebu gwasgfa incwm oni bai bod argaeledd gofal plant a ariennir yng Nghymru yn cynyddu i gyfateb â Lloegr.

Mae'n hanfodol bod gwleidyddion Cymru a rhanddeiliaid yn dechrau ystyried y modd y byddai system ddiwygiedig y DU yn gweithio yng Nghymru. Mae hefyd angen ystyried a ellid datganoli unrhyw rymoedd newydd i Gymru i alluogi newidiadau Lloegr yn unig ddigwydd yma. Dydy hyn ddim yn rhywbeth newydd. Datganolwyd pwerau Gostwng Treth Cyngor i Gymru yn 2013, fel cil-ffaith effeithiol o newidiadau yn Lloegr gan Lywodraeth y DU. Mae'n hanfodol bod y sector gofal plant yn mabwysiadu dull rhagweithiol o fynd ati i drafod cwestiynau fel hyn.

## 5. Casgliadau a datrysiadau

Mae angen i'n system gofal plant fynd i'r afael ag anfantais yn hytrach na'i ymgorffori. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i system gofal plant Cymru sicrhau cydbwysedd gwell rhwng darparu addysg gynnar ar gyfer plant, cynorthwyo rhieni i ddychwelyd i fyd gwaith a sicrhau bod gan rieni ddewis o ran y math o ddarpariaeth sy'n gweithio orau iddyn nhw. Mae adnoddau cyfyngedig Llywodraeth Cymru yn gwneud yr angen am gydbwysedd fel hyn yn fwy amlwg.

O safbwynt addysg, mae tystiolaeth gref mai darparu gofal plant uchel ei ansawdd, rhan amser a gyflenwir gan staff arbenigol efallai fyddai'n cynnig y canlyniadau gorau.<sup>80</sup> Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw darpariaeth ran amser mor llwyddiannus i helpu rhieni ddychwelyd fyd gwaith yn dilyn diwedd absenoldeb statudol rhiant â gofal plant llawn amser.<sup>81</sup> Mae hyn yn cynyddu'r risg o blant yn byw mewn tlodi wrth dyfu, a hynny'n golygu eu bod yn colli rhai o fuddion gofal plant ac addysg gynnar. Ar y llaw arall, gallai system gofal plant sy'n ffocysu'n ormodol ar alluogi rhiant i ddychwelyd i gyflogaeth fod yn effeithiol i ostwng tlodi plant os yw'n helpu rhieni i gael swydd, ond y risg ydy ymwreiddio anfantais yn gynnar ym mywyd plentyn gan fod plant yn colli allan ar fanteision addysgol gofal plant uchel ei ansawdd. Mae yna deimlad bod gogwydd polisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gwyro rhy bell ar y ddwy ochr i'r sbectrwm hwn.

### 4.1 Gweledigaeth hirdymor ar gyfer gofal plant yng Nghymru

Mae datblygu polisi mwy integredig a chrwn yn hanfodol er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol. Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddodd Sefydliad Bevan a Chwarae Teg adroddiad a alwodd ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu "*cynnig gofal plant newydd, radical*".<sup>82</sup> Rydyn ni'n credu bod yna ddal alw am yr angen i Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynnig o'r fath.

Yn ein hadroddiad, fe wnaethon ni alw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- Datblygu cynnig sy'n darparu gofal plant rhan amser (tua 15 awr yr wythnos), uchel ei ansawdd a gyllidir, ar gyfer pob plentyn 0-4 oed am 48 wythnos y flwyddyn. Byddai'r cynnig hwn ar gael ar gyfer pob rhiant, waeth beth fo'u statws cyflogaeth gydag oriau ychwanegol ar gael ar raddfa symudol o ffioedd ar gyfer rhieni os ydyn nhw'n eu dymuno. Byddai graddfa o'r fath yn darparu oriau ychwanegol ar gyfer gweithwyr isel eu hincwm (e.e. y rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol) oriau a gyllidir yn llawn, tra codir tâl llawn ar weithwyr uchaf eu hincwm am oriau ychwanegol.<sup>83</sup>

Llywodraeth Cymru ddylai benderfynu ar yr union nifer o oriau ychwanegol i'w darparu, a throthwy incwm ar gyfer y raddfa symudol yn dilyn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid a rhieni. Byddai cynnig o'r fath yn cynnig mynediad i rieni i lefelau cyson o ofal plant a gyllidir a dileu newidiadau yn y ddarpariaeth wrth i'r plentyn dyfu fel mae pethau ar hyn o bryd. Byddai hefyd yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael yn gyffredinol, yn cynnig hyblygrwydd sy'n gweddu'n well i amgylchiadau rheini mewn gwaith a byddai'n fforddiadwy i rieni o bob grŵp incwm. Roedd ein hadroddiad hefyd yn galw am newidiadau ar gyfer plant oed ysgol sy'n derbyn gwasanaethau cofleidiol (*wrap around*).<sup>84</sup>



## 4.2 Newidiadau byrdymor i dymor canolig

Rydyn ni'n sylweddoli y gall cyflwyno newid sylfaenol fel hyn gymryd amser ac adnoddau i'w ddatblygu a'i roi ar waith. Mae newidiadau byrdymor i dymor canolig y gellir eu gwneud i'r system gofal plant i fynd i'r afael â rhai o'r gwendidau a nodwyd gennym tra'n ein symud i'r cyfeiriad dymunol.

Efallai'r mai'r lle amlycaf i gychwyn ar newidiadau fel hyn ydy integreiddio rhaglenni gofal plant Llywodraeth Cymru sydd eisoes yn bodoli. Rhaid i ni ddatblygu system lle mae'r cyllid yn dilyn y plentyn yn hytrach na'r plentyn yn dilyn y cyllid.

O safbwynt rhieni, y maes lle mae'r angen mwyaf i wella integreiddio ydy sicrhau bod eu plentyn yn gallu cyrchu mwy nag un rhaglen heb iddyn nhw orfod gwneud trefniadau i symud eu plentyn o un lleoliad i leoliad arall. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i rieni sy'n gweithio a gallai fod hyn yn oed yn bwysicach wrth i Ddechrau'n Deg (Gofal Plant) gael ei weithredu. I'r perwyl hwn, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- **Gweithio gydag awdurdodau lleol Cymru i adolygu argaeledd gofal plant ymhob cymuned yng Nghymru a datblygu cynllun ar gyfer system gofal plant cwbl integredig sy'n dod â thair rhaglen gofal plant Llywodraeth Cymru a gyllidir at ei gilydd.**

I sicrhau bod mwy yn mabwysiadu'r gwahanol raglenni, mae'n hollbwysig ei bod hi'n hawdd i rieni a gwarcheidwaid allu gwneud cais am eu hawliadau. I'r perwyl hwn, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- **Datblygu un ffurflen gais ar gyfer y tair rhaglen gofal plant y gall rhieni eu cyrchu drwy unrhyw sianel o'u dewis.**

O safbwynt darparwr, gellir gwneud newidiadau pellach i wella integreiddio. Mae rhain yn cynnwys:

- **Datblygu'r bartneriaeth sydd eisoes yn bodoli rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn i fynd i'r afael â phryderon darparwyr am reoliad dwbl, tra'n cynnal rheoliad cyfan uchel ei lefel.**
- **Sicrhau ei fod hi'n gliriach beth yw gofynion rheoleiddio gwarchodwyr plant. Gallai hyn gynyddu argaeledd gofal plant, yn enwedig ar gyfer rhieni sy'n gweithio oriau nodweddiadol a rhieni'n byw mewn ardaloedd gwledig.**

Hyd yn oed petai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r holl newidiadau hyn, byddai bylchau sylweddol yn parhau o ran darparu gofal plant a gyllidir yng Nghymru. Y bwlch mwyaf sylweddol ydy argaeledd gofal plant a gyllidir ar gyfer plant 9 mis i ddwy flwydd oed. I fynd i'r afael â'r bwlch hwn, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- **Ymestyn Dechrau'n Deg (Gofal Plant) yn gyffredinol ar gyfer pob plentyn 9 i 23 mis oed ar ôl gorffen rhoi Dechrau'n Deg (Gofal Plant) i holl blant 2 oed yng Nghymru ar waith ym mis Ebrill 2025**

Er mwyn cynnig system gofal plant sy'n mynd i'r afael ag anfantais yn effeithiol, mae'n hanfodol bod y system yn cael ei hariannu'n ddigonol. Er bod adolygiadau diweddar yn sôn am y modd y mae rhaglenni unigol gofal plant yn cael eu hariannu, mae'n hen bryd cael adolygiad manwl o holl agweddau o'r dull yr ariennir gofal plant. Felly, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Comisiynu adolygiad o gyllido gofal plant yng Nghymru.

Ymhlith y materion y dylai adolygiad o'r fath eu hystyried mae'r canlynol:

- Lefelau cyllid y mae darparwyr yn eu derbyn drwy bob un o raglenni gofal plant Llywodraeth Cymru
- Ystyried ydy lefelau'r cyllido yn ddigonol i alluogi darparwyr gofal plant i recriwtio a chadw gweithlu uchel iawn eu cymwysterau.
- Ystyried a oes cyfleoedd ar gyfer buddsoddi rhagor yn system gofal plant Cymru o ystyried y diwygiadau yn Lloegr

## Cyfeirnodau

- <sup>1</sup> Data yn seiliedig ar arolwg barn a gynhaliwyd gan YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,029 o oedolion, ac roedd 120 ohonyn nhw'n rhieni lle mae'r plentyn ieuengaf yn 10 oed neu'n iau. Cynhaliwyd gwaith maes rhwng 15 a 18 Ionawr 2024. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi'u pwysoli (oni nodir yn wahanol) ac maen nhw'n cynrychioli holl oedolion Cymru (16+ oed).
- <sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, *Child Poverty Strategy for Wales* (Ionawr 2024) ar gael ar - <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2024-01/child-poverty-strategy-for-wales-2024.pdf>
- <sup>3</sup> Joseph Rowntree Foundation and Coram Family and Childcare, *Tackling disadvantage through childcare* (Mai 2023) ar gael ar - <https://www.jrf.org.uk/child-poverty/tackling-disadvantage-through-childcare>
- <sup>4</sup> Llywodraeth Cymru n(2)
- <sup>5</sup> ibid
- <sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, *Phased expansion of Early Years Provision* (Mawrth 2022) ar gael ar - <https://www.gov.wales/phased-expansion-early-years-provision>
- <sup>7</sup> ibid
- <sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, *National Minimum Standards for Regulated Childcare for children up to the age of 12 years*, (Mai 2023) ar gael ar - [https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-05/national-minimum-standards-for-regulated-childcare\\_0.pdf](https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-05/national-minimum-standards-for-regulated-childcare_0.pdf)
- <sup>9</sup> Amcangyfrifir hyn yn seiliedig ar blentyn yn mynychu meithrinfa am 50 awr yr wythnos. Mae "Coram Family and Childcare" yn defnyddio 50 awr fel sail ar gyfer amcangyfrifon gofal plant amser llawn i gwmpasu wythnos waith amser llawn arferol, gan gynnwys amser i deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith. "Coram Family and Childcare, *Childcare Survey 2023*" (Mawrth 2023) ar gael ar - [https://www.familyandchildcaretrust.org/sites/default/files/Resource%20Library/Childcare%20Survey%202023\\_Coram%20Family%20and%20Childcare.pdf](https://www.familyandchildcaretrust.org/sites/default/files/Resource%20Library/Childcare%20Survey%202023_Coram%20Family%20and%20Childcare.pdf)
- <sup>10</sup> ibid
- <sup>11</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Office for National Statistics), *Annual survey of hours and earnings - resident analysis* - cyrchwyd drwy Nomis
- <sup>12</sup> ibid
- <sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, *Childcare for 3 and 4 year olds: policy guidance for providers* (Mai 2019, updated November 2022) ar gael ar - <https://www.gov.wales/childcare-3-and-4-year-olds-policy-guidance-providers#:~:text=You%20will%20get%20%C2%A35%20per%20hour%20for%20each,For%20example%2C%20if%20you%20are%20providing%20additional%20hours.>
- <sup>14</sup> ibid
- <sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, *Evaluation of the Childcare Offer for Wales: year 5* (Mawrth 2023) ar gael ar - <https://www.gov.wales/evaluation-childcare-offer-wales-year-5>
- <sup>16</sup> YouGov n(1)
- <sup>17</sup> Oxfam Cymru, *Little steps, big struggles: Childcare in Wales* (Tachwedd 2023) ar gael ar - <https://oxfamapps.org/cymru/wp-content/uploads/2023/11/Little-Steps-Big-Struggles.pdf>
- <sup>18</sup> ibid
- <sup>19</sup> JRF and Coram Family and Childcare n(3)
- <sup>20</sup> Senedd Equality and Social Justice Committee, *Minding the future: The childcare barrier facing working parents* (Ionawr 2022) ar gael ar - <https://business.senedd.wales/documents/s122062/Report.pdf>
- <sup>21</sup> ibid
- <sup>22</sup> Llywodraeth Cymru n(15)
- <sup>23</sup> IFS, *Does more free childcare help parents work more?* (Mawrth 2020) ar gael ar - <https://ifs.org.uk/publications/does-more-free-childcare-help-parents-work-more-0>
- <sup>24</sup> ibid
- <sup>25</sup> Office for Budget Responsibility, *Economic and fiscal outlook, March 2023* (Mawrth 2023) ar gael ar - [https://obr.uk/docs/dlm\\_uploads/OBR-EFO-March-2023\\_Web\\_Accessible.pdf](https://obr.uk/docs/dlm_uploads/OBR-EFO-March-2023_Web_Accessible.pdf)

- 
- <sup>26</sup> Early Years Alliance, *Parents pay the price for the 30-hour offer as childcare providers are forced to limit 'fully free' places, new survey reveals* ar gael ar - <https://www.evalliance.org.uk/parents-pay-price-30-hour-offer-childcare-providers-are-forced-limit-fully-free%E2%80%99-places-new-survey>
- <sup>27</sup> ibid
- <sup>28</sup> YouGov n(1)
- <sup>29</sup> ibid
- <sup>30</sup> Llywodraeth Cymru n(15)
- <sup>31</sup> Llywodraeth Cymru, *Qualitative research with Flying Start families: Wave 3* (Gorff. 2018) ar gael ar - <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/180718-qualitative-research-flying-start-families-wave-3-en.pdf>
- <sup>32</sup> Cyfrannydd A yn siarad mewn sgwrs rithiol rownd y bwrdd drefnwyd gan Sefydliad Bevan ar 16 Tachwedd 23.
- <sup>33</sup> JRF and Coram n(3)
- <sup>34</sup> Llywodraeth Cymru, *National Minimum Standards for Regulated Childcare for children up to the age of 12 years* (Tachwedd 2023) ar gael ar - [https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-11/national-minimum-standards-for-regulated-childcare\\_0.pdf](https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-11/national-minimum-standards-for-regulated-childcare_0.pdf)
- <sup>35</sup> JRF and Coram n(3)
- <sup>36</sup> Stats Cymru, *School Census Data, Pupils by year group and sex* ar gael ar - <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Pupils/pupils-by-yeargroup-sex>
- <sup>37</sup> ibid
- <sup>38</sup> ibid
- <sup>39</sup> Llywodraeth Cymru n(15)
- <sup>40</sup> Stats Cymru, *School Census Data, Pupils by local authority and age group* ar gael ar - <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Pupils/pupils-by-localauthorityregion-agegroup>
- <sup>41</sup> Arolygiaeth Gofal Cymru, *Register a Childcare and Play Service*, ar gael ar - <https://www.careinspectorate.wales/register-childcare-and-play-service>
- <sup>42</sup> Llywodraeth Cymru n(13)
- <sup>43</sup> Blynyddoedd Cynnar Cymru / Early Years Wales, *Foundation Learning*, ar gael ar - <https://www.earlyyears.wales/en/foundation-learning>
- <sup>44</sup> Llywodraeth Cymru n(6)
- <sup>45</sup> ibid
- <sup>46</sup> Cyfrannydd B yn siarad mewn sgwrs rithiol rownd y bwrdd drefnwyd gan Sefydliad Bevan ar 16 Tachwedd 23.
- <sup>47</sup> JRF and Coram Family and Childcare n(3)
- <sup>48</sup> Llywodraeth Cymru, *Parents create online Childcare Offer for Wales agreements* (Tachwedd 2022, updated October 2023) ar gael ar - <https://www.gov.wales/parents-create-online-childcare-offer-wales-agreements#:~:text=All%20children%20are%20entitled%20to.day%20nursery%2C%20or%20Cylch%20Meithrin.>
- <sup>49</sup> Gwybodaeth wedi ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru drwy e-bost ar 22 Rhagfyr 2023.
- <sup>50</sup> Yn gyntaf, er bod data Arolygiaeth Gofal Cymru yn nodi nifer y lleoedd sydd ar gael, mae'r data ar y sector a gynhelir yn dangos nifer y plant sy'n mynychu sy'n golygu nad ydy rhain yn gymaryddion uniongyrchol. Yn ail, dydy'r naill ffynhonnell ddata na'r llall ddim yn ein galluogi i wahaniaethu'n llawn rhwng darpariaeth amser llawn a rhan-amser. Yn drydydd, mae'r data a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn edrych ar blant ar draws ystod ehangach o oeddrannau, sydd yn gwneud cymariaethau tebyg at ei debyg unwaith eto'n anodd. Mae risg hefyd o gyfrif ddwywaith o ystyried y gall rhai plant fynychu lleoliad a gynhelir am ran o'r diwrnod a lleoliad preifat ar gyfer rhan arall o'r un diwrnod.
- <sup>51</sup> Arolygiaeth Gofal Cymru, *Chief Inspector's Annual Report 2022–23* (2023) ar gael ar - <https://www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2023-10/261020-CI-Report-22-23-en.pdf>

- 
- <sup>52</sup> Llywodraeth Cymru, *Childcare Statutory Guidance* (revised 2016) ar gael ar - <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/childcare-statutory-guidance-for-local-authorities.pdf>
- <sup>53</sup> Coram Family and Care n(9)
- <sup>54</sup> Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd n(20)
- <sup>55</sup> ibid
- <sup>56</sup> Sefydliad Bevan, *Poverty in Arfon in the 21<sup>st</sup> century: Modern solutions for an old challenge for Wales* (August 2023) ar gael ar - <https://www.bevanfoundation.org/resources/poverty-in-arfon/>
- <sup>57</sup> Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd n(20)
- <sup>58</sup> Llywodraeth Cymru n(6)
- <sup>59</sup> JRF and Coram Family and Care n(3)
- <sup>60</sup> Llywodraeth Cymru n(15)
- <sup>61</sup> Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd n(20)
- <sup>62</sup> Llywodraeth Cymru, *Childcare Offer for Wales digital service: introduction for providers* (September 2021, updated June 2023) ar gael ar - <https://www.gov.wales/childcare-offer-wales-digital-service-information-providers#:~:text=The%20Childcare%20Offer%20for%20Wales%20digital%20service%20enables,the%20Additional%20Support%20Grant%20route%20may%20take%20longer.>
- <sup>63</sup> Llywodraeth Cymru n(13)
- <sup>64</sup> JRF and Coram Family and Childcare n(3)
- <sup>65</sup> ibid
- <sup>66</sup> Llywodraeth Cymru n(15)
- <sup>67</sup> Llywodraeth Cymru n(31)
- <sup>68</sup> ibid
- <sup>69</sup> JRF and Coram Family and Childcare n(3)
- <sup>70</sup> Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd n(20)
- <sup>71</sup> ibid
- <sup>72</sup> HM Government, *Childcare Choices, Help paying for your childcare*, ar gael ar - <https://www.childcarechoices.gov.uk/upcoming-changes-to-childcare-support/#:~:text=The%20upcoming%20expansion,-Starting%20from%20April&text=This%20means%20that%3A,to%203%2Dyear%2Dolds.>
- <sup>73</sup> JRF and Coram Family and Childcare n(3)
- <sup>74</sup> ibid
- <sup>75</sup> ibid
- <sup>76</sup> Senedd – Y Pwyllgor Deisebau, *Offer Welsh working parents the same financial support for childcare as England* (3 October 2023) ar gael ar - <https://petitions.senedd.wales/petitions/245522>
- <sup>77</sup> Llywodraeth Cymru, *Llywodraeth Cymru Draft Budget 2024-25*, (December 2023) ar gael ar - <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-12/2024-2025-draft-budget-narrative.pdf>
- <sup>78</sup> Letter to the Petitions Committee by the Deputy Minister for Social Services (November 2023) ar gael ar - <https://business.senedd.wales/documents/s142779/Correspondence%20from%20the%20Minister%20for%20Social%20Services%2019%20November%202023.pdf>
- <sup>79</sup> Institute for Public Policy Research and Save the Children, *Delivering a Childcare Guarantee*, (December 2022) ar gael ar - <https://www.ippr.org/files/2022-12/delivering-a-childcare-guarantee-dec-22.pdf>
- <sup>80</sup> JRF and Coram Family and Childcare n(3)
- <sup>81</sup> IFS n(23)
- <sup>82</sup> Sefydliad Bevan a Chwarae Teg, *Trapped: poverty amongst women in Wales today* (December 2019) ar gael ar - <https://www.bevanfoundation.org/resources/trapped-poverty-amongst-women-in-wales-today/>
- <sup>83</sup> Mae modelau tebyg eisoes ar waith mewn mannau eraill megis Gweriniaeth Iwerddon.
- <sup>84</sup> ibid